

PRIFYSGOL BANGOR - MEINCNODAU A DANGOSYDDION ASESU AR GYFER SYMUD YMLAEN/DYRCHAFU I DDARLITHWYR 2 (GRADD 8)

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf meincnod disgwylidig ar gyfer pob un o feysydd y cais. Ategir y meincnodau gan ddangosyddion sy'n enghreifftiau o'r dystiolaeth y disgwylir iddi gael ei hamlinellu mewn cais - nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyflawni'r holl ddangosyddion ym mhob maes.

Cydnabyddir y bydd rhai meysydd yn fwy priodol i rai disgyblaethau na'i gilydd, a disgwylir y bydd y rheiny sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn cymhwyso eu dystiolaeth at eu disgyblaeth benodol. Yn yr un modd, bydd aelodau'r Panel Gwirio yn seilio eu barn yn unol â hynny.

YMCHWIL	
Meincnodau	Dangosyddion
Hanes o gyhoeddi ymchwil yn rheolaidd a pharhaus mewn cyhoeddiadau o safon	<ul style="list-style-type: none">▪ Cyhoeddi llyfrau, penodau mewn llyfrau, erthyglau a/neu bapurau mewn cyfnodolion dysgedig sy'n briodol i'r maes.▪ Mewn cerddoriaeth ac ysgrifennu creadigol, dystiolaeth o weithgaredd a chydabyddiaeth fel bo'n briodol i lefel y cais.
Tystiolaeth o gyfraniad ar lefel briodol yn y maes pwnc, aelodaeth o gyrff proffesiynol a statws a/neu ganmoliaeth gan gyrff allanol	<ul style="list-style-type: none">▪ Aelod gweithgar o gymdeithasau dysgedig.▪ Adolygydd a/neu ganolwr i gyfnodolion academaidd.▪ Cyfrannu at gynadleddau academaidd (cyflwyno papurau) neu dystiolaeth o arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.
Tystiolaeth o gynnyrch ymchwil a goruchwyllo	<ul style="list-style-type: none">▪ Cynnal a chadw portffolio o weithgareddau ymchwil, datblygu amcanion ymchwil, projectau a chynigion a chynnal projectau ymchwil unigol neu ar y cyd.• Goruchwyllo ymchwil gan fyfyrwyr hyd at ei gwblhau o fewn ystod yn amrywio o israddedig hyd at lefel PhD
Tystiolaeth o gyfrannu at ennill cyllid allanol, fel bo'n briodol i'r maes pwnc	Tystiolaeth o allu canfod ffynonellau cyllid a chyfrannu at y broses o lwyddo i ennill cyllid fel bo'n briodol i'r maes.

ADDYSGU A DYSGU

Meincnodau

Dangosyddion - bydd rhai elfennau yn fwy perthnasol (ond nid yn gyfan gwbl) i'r rhai sy'n arbenigwyr dysgu ac addysgu yn bennaf.

Dylai'r dangosyddion a nodir isod gael eu hategu gan effaith ac arweinyddiaeth gyson ar lefel Ysgol a dylai ymgeiswyr fod yn esiampl gydnabyddedig yn yr Ysgol. Disgwylir hefyd bod tystiolaeth o ddatblygu cyfraniad ac enw da ar lefel prifysgol ac yn allanol.

Tystiolaeth o ddysgu arloesol a datblygu cyrsiau, cynllunio a gweinyddu cyrsiau ar lefel israddedig ac ôl-radd

- Cyfrannu at fentrau adrannol sy'n gwella'r addysgu lle bo'r cyfle.
- Datblygu deunyddiau addysgu neu fethodolegau, er enghraifft cynllunio cwrs neu asesiad fel bo'n briodol i'r maes pwnc.
- Tystiolaeth o fod yn gydlynedd modiwl neu gyfrannu at gydlynu modiwl.
- Cyfrifoldeb am adolygu eu gweithgareddau dysgu eu hun, i sicrhau y cyflawnir deilliannau dysgu yn effeithiol, gan roi sylw i adborth.
- Adolygu cynnwys a deunyddiau cwrs, a lle bo'n briodol, datblygu, cynllunio a diweddarau deunyddiau.
- Bod yn gyfarwydd â defnyddio amgylchedd dysgu rhithwir a ffurfiau eraill ar dechnolegau dysgu, os yn briodol i'r maes pwnc.
Tystiolaeth o weithgareddau gofal bugeiliol (e.e. tiwtor personol)

Tystiolaeth o gyfraniadau at bedagogeg y maes pwnc/arfer proffesiynol

- Cyflwyniadau mewn cynadleddau a/neu seminarau ar bedagogeg.
- Tystiolaeth o gwblhau cymhwyster PGCertHE, (neu gymhwyster addysgu cyfwerth) neu dystiolaeth o fod wedi cael Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch.

Ysgoloriaeth yn gysylltiedig ag addysgu a dysgu

- Cyhoeddi llyfrau, erthyglau a/neu bapurau mewn cyfnodolion academiaidd sy'n briodol i'r maes.
 - Mewn cerddoriaeth ac ysgrifennu creadigol, tystiolaeth o weithgaredd a chydabyddiaeth fel bo'n briodol i lefel y cais.

CYFRANIAD EHANGACH I'R YSGOL/COLEG/PRIFYSGOL A'R GYMUNED

Meincnodau	Dangosyddion
Cyfraniad at weinyddiaeth Ysgol / Coleg	<ul style="list-style-type: none">▪ Gwneud gwaith gweinyddol yn yr Ysgol (e.e. trefnu arholiadau, cadw/rheoli cofnodion, cyfrannu at ddiwrnodau agored)▪ Cyfrannu at drefniadau achredu/sicrhau ansawdd (os yn gydlynnydd modiwl).▪ Aelodaeth o fyrddau ysgol a grwpiau tasg▪ Cyfrannu at roi sylw i agweddau ar brofiad myfyrwyr.▪ Cyngori/ mentora cydweithwyr llai profiadol.▪ Cyfrannu at genhadaeth y brifysgol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r iaith Gymraeg a/neu ei chefnogi fel bo'n briodol.
Gwella proffil y brifysgol	<ul style="list-style-type: none">▪ Tystiolaeth o gyfrannu at weithgareddau trydedd genhadaeth, neu at ddatblygu projectau sy'n cael effaith fasnachol, os yn briodol i'r maes pwnc.▪ Cyfrannu at ddigwyddiadau marchnata a chyhoeddusrwydd.▪ Cyfrannu at ymwneud â'r gymuned.